# DINESYDD

PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH
Rhif 162 MAWRTH 1990

## *Ydyn ni'n iachach fel Cenedl?*

(Tudalen 2)



*Llun – Biz 8 – Yn Neuadd y Ddinas*

CYNNWYS

Colofn Shân ..... 3
Sêr ..... 5
Bwth Ruth ..... 10
Gwaelod-y-Garth . 11
Y Calendar ..... 13
Croesair ..... 15

YN RHAD AC AM DDIM

# SAFBWYNT

## YDYN NI'N IACHACH FEL CENEDL?

**Mae Mawrth 1af, yn amlwg, yn golygu tipyn i ni fel cenedl. Mae'n amser i ferched ifanc wisgo'r wisg draddodiadol, cennin pedr, cael cawl cennin a dangos tipyn o falchder Cymraeg. 'Roedd y Gwyddel Dewi yn arweinydd crefyddol a oedd yn amddiffyn ein hiechyd ysbrydol. Tybed beth fyddai'n meddwl o iechyd ysbrydol a chorfforol ni'r Cymry yn y nawdegau? Yn sicir, prin yw'r Cymry sy'n arweinwyr yn y sector cyhoeddus a phreifat.**

Bum mlynedd union yn ôl daeth Curiad Calon Cymru i fodolaeth gyda'r adduned o "godi calon Cymru". Daeth corff mwy ers hynny i arwain y ffordd. Efallai y byddwn yn iachach fel cenedl yn gorfforol mewn blynyddoedd i ddod.


Beth ddigwyddodd i'r pla AIDS a'r broblem cyffuriau? Dyw'r cyfryngau yn gymdeithasol ddim yn rhoi'r un sylw iddyn nhw erbyn heddiw. Ond yn ddiweddar, daeth gwahanol fath o gyffuriau i'r amlwg am wythnos neu ddwy. Gwarth Auckland yn taflu cysgod ar yr ymdrechion, a gweld defnyddio cemegau i hybu perfformiad mewn chwaraeon. Cysgod oherwydd hynny ar yr unigolion a lwyddodd a'r rhai oedd yno ddim ond i gymryd rhan.

Rhai Cymry di-Gymraeg yn sylweddoli nawr nad yw'r gwasanaeth darlledu yng Nghymru yn darparu llawer iddyn nhw. Efallai eu bod nhw erbyn hyn yn sylweddoli pa mor bwysig oedd sefydlu sianel i ni'r Cymry Cymraeg. Ond nid y Sianel yw'r broblem. Yn hytrach rhaid edrych at y cyfryngau sy'n darparu rhaglenni yn Saesneg i gynhyrchu'r un amrywiaeth o geir yn ein hiaith ni.

Mae'r Ddinas wrthi'n penderfynu beth yw ei pholisi o ran yr iaith. Yn sicir, mae'n amlwg i bobol o du hwnt i Glawdd Offa fod yma ddwy iaith, ond mae'r Cymry sy'n byw yn y ddinas yn gwybod yn rhy dda nad yw hyn yn wir, yn enwedig i'r rhai sy'n agosau at ddiwedd y daith. Anghysondeb yw'r broblem, ond wedi dweud hynny, a yw arwydd yn dweud "Amlosgfa" yn bwysig i'r sawl sydd wedi denu tyrfa i'w barti olaf?

Dewi, os wyt ti'n gwrando, rho gymorth i ni yn ein bywyd ysbrydol a chorfforol – dydyn ni ddim yn holliach eto fel Dinasyddion!

**H.T.D.**




CANOLFAN Y CELFYDDYDAU TALIESIN
COLEG Y PRIFYSGOL ABERTAWE

≈≈≈

**CYNGERDD DEWI SANT**

CÔR MEIBION PONTARDULAIS

gyda BEVERLEY HUMPHREYS

*(Mezzo Soprano)*

KATHERINE MORRIS

*(Piano)*

**Nos Iau 1 MAWRTH – 7.30 p.m.**

Tocynnau: £4.50/£4.00 (Gost)/£2.00 (Myfyrwyr)

≈≈≈

**CWMNI DALIER SYLW yn cyflwyno**

**BERMO YN Y NOS**

gan Wiliam Owen Roberts

**Nos Wener 16 & Nos Sadwrn 17 Mawrth 7.30 p.m.**

Tocynnau: £4.00/£3.00 (Gost)

SWYDDFA DOCYNNAU: (0792) 296883

≈≈≈

**CWMNI FFILM A THELEDU**

Teliesyn

yn cyflwyno

**DAROGAN**

Cyfres o raglenni ar broffwydo'r dyfodol

ar

**S4C**

am 7 o'r gloch o Fawrth 8fed ymlaen

Cyflwynydd: Eiry Palfrey
(Astrolegydd y Dinesydd)

Teliesyn Cyf. 3, Sgwar Mount Stuart,
Caerdydd. CF1 6EE (0222) 480911

# COLOFN SHÂN

**Mae'n siwr gen i bod llawer yn meddwl amdanaf fel creadures hiraethus atgofus a sentimental. Ydw, euog o'r cyfan! Pleser pur i mi felly oedd mynd ar gwrs preswyl yn ddiweddar i Blas Tanybwlch. Clywais, a chlywed yw'r gair, bod cwrs arfaethedig ar "Llên a Llŷn" – i'r dim meddyliais. Ond buan y sylweddolais mai "Llên a Llun" oedd y cwrs. Ta waeth am hynny, roedd yn gyfle i ddianc o rwystredigaethau bywyd a chael bwyd i'r meddwl a'r bol, mewn lleoliad bendigedig. Mynd fu hi.**



Bum yn ffodus o gael pas gan Ruth o'r Bwth, ac felly nid oedd y daith yn boen arna i. Hi yn mynd ar gwrs Siampleri, rhyfeddais at ei hamynedd hi a'r criw fu wrthi'n pwytho gydol yr amser. Pawb at y peth y bo ynte, ond roedd gwaith rhai o'r mynychwyr yn wledd i'r llygad. Na, nid dyna'r "llun" yn fy nghwrs i, roedd hwnnw'n gwbwl arwahan.

Ymddengys bod hen "Lawysgrif Tanybwlch" ar gael yn y Llyfrgell Genedlaethol – wyddwn i ddim am ei fodolaeth, a go brin yr awn byth yno i gael golwg arno chwaith. Ond ar y nos Wener fe gawsom ddarlith hynod ddiddorol gan yr Athro Gwyn Thomas yn rhoi inni ddarlun byw o'i gynnwys. Hanesion fel bu i fonedd Tanybwlch a phlasdai tebyg ym Meirionnydd noddi beirdd y fro – a'r rheiny wrth gwrs yn mynd ati i lunio cywyddau canmoliaethus 'i'w meistri – weithiau hyd at syrffed. Minnau newydd fod yn darlithio ar Faledwyr ac wedi cyfeirio at duedd debyg ganddynt. Llunio baledi i blesio'r gwrandawyr wnaent hwythau er hyrwyddo gwerthiant eu pamffledi. On'd ydy hi'n ddiddorol fel mae cymaint o'n traddodiadau yn braidd gyffwrdd ei gilydd?

Taith mewn bws mini drwy ddydd Sadwrn i weld rhai o hen blasdai a ffermdai Meirionnydd. Y cynta' oedd Pengwern – tŷ hardd ond yn prysur fynd ar ei waetha' – ac yn dyddio'n ôl i gyfnod Elizabeth y cyntaf. Tŷ cerrig solat, a'r simneua'n nodweddiadol o'r cyfnod, yn gul a thal, yn ymestyn i'r awyr. 'Dallwn i lai na meddwl ar ôl y corwyntoedd diweddar bod tai fel hwn yn dal ar ei draed. Sut y codwyd y fath gampweithiau? Nerth bôn braich unigolion o grefftwyr a'u cododd. Ninnau heddiw a holl dechnoleg fodern yn codi miloedd o dai mewn cyfnod byr, ond gwynt go gry' ac mae'r pared a'r to yn disgyn fel pac o gardiau. Gwneud i ddyn feddwl!

Yna ymlaen i Dyddyn Du lle bu Edmwnd Prys yn byw a chael croeso yno gan deulu ifanc o Gymry sy'n byw yno heddiw ac yn ymfalchio yn nhreftadaeth y parwydydd. Cynfal nesaf a'r Athro Gwyn Thomas a Mona Williams (trefnydd y cwrs) yn rhoi sylwebaeth ar y cyfan a welsom. Uwchben drws Cynfal y mae'r cwpled yma –

*"Gorau i blentyn fod gyda'i rieni*
*Gorau i ddyn fod gyda' i Dduw"*

Cinio o frechdanau wedyn, oherwydd y tywydd, ym maes parcio Llanfachreth, Pasio'r fynwent lle claddwyd Gwyndaf, cipolwg ar gartre'r bardd Nesta Wyn Jones cyn troi i gyfeiriad Glasynys a phicio i gael cipolwg ar Y Glyn, cartre teulu Harlech. Pob munud yn ddifyr.

Ar ôl swper darlith gan Ted Breeze Jones ar fywyd gwyllt Meirionnydd ac fel bu i fonedd ddifetha llawer wrth hela a saethu. Ond y rhyfeddod yw bod natur yn ei ffordd ei hun, o gael yr amgylchiadau priodol, yn gallu adfer a chryfhau llawer a gollwyd. Fy meddwl bach i – fel un 'styfnig o obeithiol – dyna sy'n digwydd yng Nghymoedd y De. Dyn â'i drachwant wedi gwaedu a hagru'r tir – a rwan y bryniau yn glasu ac yn sgil hynny yr iaith yn araf ennill ei thir hithau. Er nad oes gen i fawr o ddiddordeb mewn anifeiliaid nac adar – gwledd i'r llygad a'r glust a gawsom a Chymraeg cyhyrog Ted Breeze Jones yn fiwsig i'r glust. Profiad ysywaeth sy'n brin erbyn heddiw.

Fore Sul, darlith gan Dyfed Evans ar yr arch gymeriad a chwilotwr, Bob Owen Croesor. Rhyfeddu unwaith eto at ymroddiad y cymeriad hwnnw, yn enwedig erbyn hyn, yn casglu, yn chwilota, yn darlithio, a hynny heb na chyfrifiadur na dim o fanteision technoleg heddiw. Cerdded neu ac feic neu drên a wnôi i fynd i bobman. Cofio teithio yn y trên efo fo unwaith, a sôn wrtho am ryw feirdd yr honnai Nain ein bod yn perthyn iddynt – a Bob Owen yn cynhyrfu fwy bob munud gan ddweud wrthai "Duw, Duw, mi wnai di'n brincess myn diawl!"

**Efallai bod 'na rhyw gyfiawnder yn yr hen fyd od 'ma wedi'r cwbwl, ond i ni fod yn amyneddgar – meddwl am Blas Tanybwlch fu'n blingo'r werin cyhyd, rwan at wasanaeth y werin, yn diogelu'r amgylchfyd a'r diwylliant, ac yn rhoi cyfle i rywun fel fi gael profiad i'w gofio.**




*Plas Tan-y-Bwlch.*

## LLONGYFARCH

Llongyfarchiadau i Janet ac Alun Davies ar y newydd-ddyfodiad bychan – Rhodri Lewys, brawd i Iwan Steffan a Ffion Wyn.

## HYSBYSEBU

Mae hysbysebion bach y Dinesydd yn ffordd dda o werthu eich eiddo neu wasanaethau. Byddai blwch o'r maint yma'n costio £10. Cysylltwch â ni nawr i sicrhau lle yn y rhifyn nesaf.

# "WY'N GWRANDO"

**Erbyn hyn mae trefn newydd Radio Cymru wedi 'i sefydlu os nad ei derbyn. Mae newid yn anorfod yn arbennig pan fydd newid yn y gadair olygyddol. Wrth i Lyn Jones, pennaeth newydd Radio Cymru, fwrw golwg dros y maes fe benderfynodd ar ambell i chwyldro, ychydig o gyfnewidiadau, sawl darn o dwtio cosmetig a chodi fan hyn, colli fan draw.**

llidwyd i alwadau'r ifanc am ddarpariaeth arbennig a bellach mae ganddynt eu 'ghetto' beunosol tua'r deg. Yr unig wahaniaeth gwerth sôn amdano rhwng y rhaglenni hyn yw'r cyflwynwyr. Fel arall, mae'r cynnwys yn undonog o ran natur y disgiau. Ai dyma felly chwaeth yr ifanc? Ydyn nhw'n adlewyrchu diddordebau'r genhedlaeth iau? Mae'r dystiolaeth feunosol yn awgrymu bod dydd 'y pethe' ar ben a bod balchder mynegiant wedi mynd i gefn y ffwrn.

Menter fwyaf chwyldroadol y drefn newydd oedd disodli Hylo Bobol a gorseddu, yn ei lle, y rhaglen newyddiadurol Heddiw. Dyma benderfynu ar ein rhan ei bod yn hen bryd i ni gael papur newydd dyddiol. Collwyd rhaglen gylchgrawn ac fe gafodd ei chyflwynydd dawnus dransffer. Diflannodd difyrrwch dros nos gan roi lle i ddirfrifoldeb. Lle bu cyffyrddiad pluen cawsom becyn o blwm.

Rhaid derbyn cymhwyster newyddiadurol y ddau gyflwynydd, Russell Isaac yng Nghaerdydd a Vaughan Hughes ym Mangor. Ond radio yw'r cyfrwng nid papur. Felly, yr hyn sy'n cyfri gymaint â dim yw llais yn enwedig pan fydd disgwyl i ni wrando arno am awr a hanner o'r bron o fore Llun tan fore Gwener.

Dau lais gwrywaidd a glywir, dau lais anneniadol a dau yn unig. Wn i ddim ai llanw bwlch annwyd mae Siân Parri Huws o Fangor ond mae'n iechyd cael llais merch. Onid oes modd cael mwy na dau fel tîm o gyflwynwyr? Ac er i'r ddau ŵr geisio bod yn ddigri nid dyna'u cryfder o bethau'r byd ond mae gwir angen ysgafnder boreol ar bawb ohonom. Wedi'r cyfan mae gan y mwya difri o'r trymion gartŵn.

Alltudiwyd Hywel Gwynfryn i amser te ac am wn i iddo fynd â'i gynulleidfa foreol gydag e. Mae'n ddiddorol sylwi ar y newid pwyslais ac mae 'rapport' Gwynfryn y radio yn sicr o lwyddo i ba le bynnag y caiff ei alltudio. Mae cyflwynwyr radio'n greaduriaid allweddol a beth bynnag fo'r maes mi fydda i'n disgwyl am dinc awdurdod ac argyhoeddiad. Fe'i câf, er enghraifft, yn Cymru 2000 ac Mae Gen i Hawl oherwydd ansawdd cyflwyno Dewi Llwyd. Fe'i ceir hefyd yn Talwrn y Beirdd ac Yn ei Elfen. Mae'r un peth yn wir am hwyl a haul Ruth Parry a'i chyfres Merched yn Bennaf. Nid felly Cynfas sy'n gyfres sy'n gofyn am gefndir ac aeddfedrwydd. Mae adnoddau annigonol gan y cyflwynydd ac roedd hyn yn boenus o amlwg yn y catalog undonog a raglen adolygu ddiwedd 1989.

Mae Aled Jones yn un o feddyliau mwyaf gwreiddiol BBC Bangor ond mae wedi mynd dros ben llestri gyda'i Sebon. Mae'r dychan wedi mynd mor bell nes peidio â bod yn ddychanol ac felly mae'r holl ymdrech yn ofer. Piti garw gan fod yr angen am ddychan yn fawr.

**WYNNE LLOYD**

**DIOLCH**

Dymuna Pwyllgor y Dinesydd gydnabod, gyda diolch, rodd o £5 gan Mr John G Breese, Glanyrafon.

# RAGLENNI GŴYL DEWI AR BBC CYMRU

**Un o uchafbwyntiau'r teledu dydd Gŵyl Dewi yn sicr fydd ffilm awr a hanner ar BBC2 Wales, SNOW.**

Gareth Rowlands, mab Mr a Mrs Alun Rowlands, Llandaf yw'r awdur, y cynhyrchydd a'r cyfarwyddwr, ac mae hanes rhoi'r gwaith at ei gilydd yn werth ffilm yn ei hun!

Ffilm sbiwyr yw SNOW wedi'i seilio ar hanes gwir Arthur George Owens, yr ysbiwr mwyaf allweddol cyn yr ail ryfel byd, yr un mor allweddol i MI5 ag yr oedd i'r Almaen.

Sonir am Owens, neu SNOW, fel dyn oedd yn casau'r Saeson â chas perffaith a dywedir ei fod yn ennill gymaint â £2000 y flwyddyn yn ddi-dreth oddi wrth yr Almaenwyr erbyn haf 1939. Dyma'r tro cyntaf i hanes Owens gael ei adrodd yn llawn er bod sôn amdano mewn cyfrol a gyhoeddwyd yn 1958 fel asiant i'r Almaenwyr yn unig. Yn 1972 cyhoeddwyd cyfrol gan Ladislas Farago, a ysgrifennodd y script ar gyfer y ffilm TORA, TORA, TORA – am ymosodiad y Japaneaid ar Pearl Harbour. Mae Farago'n portreadu Owens fel asiant dwbl – i'r Prydeinwyr a'r Natsiaid. Sonir amdano hefyd yn nghyfrol J C Masterman a'i gysylltu â Nikolaus Ritter.

Ffilmwyd SNOW yng Nghaerdydd a San Sebastian, Gwlad y Basg, lle cafodd Gareth a'i griw ffilmio groeso mawr!

**Ar Radio Cymru, noson Gŵyl Dewi, mae cyfle i fwynhau cynhyrchiad newydd o ddrama Radio Saunders Lewis, Y CYRNOL CHABERT.**

Seiliwyd y ddrama ar stori Balzac am gyrnol ym myddin Napoleon a enillodd "groes fawr y Lleng Anrhydedd, post mortem, am ei ddewrder yn mrwydr Eylau, 1807." Ddeng mlynedd yn ddiweddarach mae yna ddyn sy'n galw ei hun yn Cyrnol Chabert yn dychwelyd i Baris i chwilio am ei wraig a'i ffortiwn. Yn ngeiriau'r Cyrnol "Mi fum i gyda'r meirw yn y bedd yn ddyn byw. Nawr rydw'i gyda'r esgymun byw yn ddyn marw."

Aled Jones yw'r cynhyrchydd a John Ogwen sy'n chwarae rhan y Cyrnol. Fe ddarlledwyd y ddrama gyntaf fis Rhagfyr 1968 gyda Lorraine Davies yn cynhrychu a W H Roberts yn chwarae rhan y Cyrnol.

Cyhoeddwyd Y CYRNOL CHABERT ynghyd â'r ddrama ola i Mr Lewis ei hysgrifennu ym 1938, gan Wasg Dwyfor llynedd.



*Michael Maloney – (Arthur George Owens)*

Mae rhai o sêr mwyaf Cymru yn ymuno â Cherddorfa Symffoni Gymreig y BBC, dan arweiniad un arall o fechgyn Caerdydd, Owain Arwel Hughes, yn Neuadd Dewi Sant, ar Ŵyl Dewi. Angharad Mair fydd yn cyflwyno Mary Lloyd Davies, Bryn Terfel, Sioned Williams, Ar Log, Côr Meibion Froncysyllte, Cantorion Sireniaid a Pharti'r Ffin. Bydd hanner cyntaf y cyngerdd ar BBC 1 Wales a Radio Wales a'r ail ran ar S4C a Radio Cymru.

# SÊR
## Y DINESYDD
### Eiry Palfrey

**MAWRTH 1990**

### ARIES
Mae na duedd ynoch chi ar hyn o bryd i ddweud eich meddwl yn rhy groyw a dechrau mwy nag yn anghydfod os na fyddwch yn ofalus. Serch hynny bydd y bos yn edmygu'ch creadigrwydd yn fawr ac yn debygol o'ch gwobrwyo am eich gwreiddioldeb. Peidiwch ag arwyddo unrhyw gytundeb cyfreithiol heb ddarllen y print mân yn ofalus yn gyntaf.

### TAURUS
Byddai gweithio gyda grŵp o bobl ar brosiect anghonfensiynol yn sicrhau llwyddiant ariannol a gyrfaol i chi'r mis hwn. Mae'n bosib y byddwch yn teimlo bod eich dwylo yng nghlwm am gyfnod a bod pob math o rwystrau yn llesterio'ch cynnydd. Amynedd piau hi am y tro. Daw pethau'n llawer haws ymhen ychydig.

### GEMINI
Bydd y blaned Iau yn dylanwadu'n sylweddol arnoch y mis hwn gan ddwyn pob math o bethau da i'ch côl. Byddwch yn dechrau ar gyfnod newydd ffortunus o dyfiant a chewch gyfle i ehangu i bob cyfeiriad (gwyliwch y pwysau!). Mae'n bosib y byddwch yn trefnu taith yn y dyfodol agos. Efallai y cewch newyddion am enedigaeth.

### CANCER
Os gadewch chi i rywun gymryd mantais o'ch caredigrwydd, mae'n posib y byddwch yn difaru cyn pen y mis. Gwell fyddai canolbwyntio ar waith elusengarol, cewch fwy o foddhad personol o wneud hynny. Tua diwedd Mis Mawrth mae'n bosib y byddwch chi a'ch cymar yn mynd ar daith bleserus.

### LEO
Fe ddylai'ch bywyd cymdeithasol fod yn llawer mwy prysur o hyn ymlaen. A mae'n bosib y byddwch yn gweithio gyda phobl o gefndir gwahanol iawn i chi. Daw'r ysfa i spring clinio'ch cartref neu'ch swyddfa y mis hwn. Cymerwch ofal o'ch iechyd, rydych chi'n agored i afiechydon llidus fel y ffliw ar hyn o bryd.

### VIRGO
O'r mis hwn ymlaen mi ddylech fod yn llwyddiannus iawn yn eich gyrfa, mae dyrchafiad yn bosib iawn o fewn yr wythnosau nesaf. A mi fydd gennych ddigon o egni a dyfalbarhad i gyrraedd y nod. Os oes problem yn eich blino byddai ei thrafod gyda'ch cymar neu gyfaill agos yn sicr o helpu'r sefyllfa.



### LIBRA
Effallai y bydd gofyn i chi deithio llawer mwy gyda'ch gwaith o'r gwanwyn hwn ymlaen; yn sicr bydd tramorwyr yn chwarae rhan bwysig yn eich bywyd mewn rhyw ffordd. Ceisiwch osgoi cymryd unrhyw foddion neu gyffur os nad yw wedi ei argymell gan feddyg. Mae'ch corff yn agored iawn i wenwyn ar hyn o bryd.

### SCORPIO
Fe ddylai'ch sefyllfa ariannol wella'n sylweddol o'r gwanwyn hwn ymlaen. Rydych yn llawn syniadau creadigol ar hyn o bryd a bydd pobl mewn awdurdod yn barod iawn i gymryd sylw ac i barchu'ch gallu a'ch gwybodaeth drylwyr. Ond mae na elfen o dwyll o'ch gwmpas, felly cymrwch ofal mawr o'ch pwrs a'ch arian yn gyffredinol.

### SAGITTARIUS
Os ydych yn dal yn ddibriod mae na bosibilrwydd cryf y cewch eich sgubo oddiar eich traed gan ryw Lothario neu Seiren benderfynnol o fewn yr wythnosa nesa 'ma; ac os ydych yn briod yna bydd eich perthynas yn hapus a llewyrchus. Ond cadwch ffrwyn ar eich tafod a'ch tymer rhag cymylu eich Paradwys.

### CAPRICORN
Os bu eich iechyd yn ddioddef yn ddiweddar mi ddylai fod yn llawer gwell o hyn ymlaen. A mi fydd gennych lawr o ynni a brwdfrydedd tuag at eich gwaith, a'r gallu i gyflawni llawer. Mae gweithio ar eich pen eich hyn yn gweddu'n well i chi ar hyn o bryd. Ond mae damweiniau yn y cartref yn debygol, felly cymrwch ofal.

### AQUARIUS
Rydych ar fin dechrau cyfnod creadigol iawn yn eich bywyd, yn y gwaith, a'ch bywyd personol – mae genedigaeth yn eitha posib hyd yn oed. Os ydych yn ddibriod fe allai rhamant ddod i'ch cwmpas. Rhaid i chi feithrin agwedd mwy ymarferol tuag at eich sefyllfa ariannol.

### PISCES
Mae hwn yn gyfnod da iawn i brynnu a gwerthu tai, neu i ehangu eich cartref. Mae tipyn o gweryla yn eich teulu ar hyn o bryd a chi fydd yn gorfod cadw'r ddesgl yn wastad. Gall cyfaill fod o help mawr i'ch cynghori ynglyn â syniad newydd sydd gennych. Rydych rywfaint ar chwâl felly byddai ymuno â chymdeithas yn help i angori'ch bywyd.

## CYLCH CINIO CYMRAEG CAERDYDD

***Gwesty'r Parc***
***7.00 ar gyfer 7.30***

Mawrth 5ed
Siaradwr: Dennis Ffrancis, HTV.

Ebrill 2il
Siaradwr: Emyr Jones,
Cyn-Swyddog Ieuenctid Gwynedd.

# CEFNOGWCH Y DINESYDD

**Mae costau cynhyrchu'r Dinesydd ar ei newydd wedd yn dal i gynyddu er inni lwyddo denu mwy o hysbysebion. Mae angen pob ceiniog arnom os ydym am wella ein cynhyrchiad ymhellach. Nawr yw eich cyfle i roi pen ar bapur a danfon siec at ein Trysorydd, Richard Hall Williams, 17 West Orchard Cresent, Llandaf, Caerdydd CF5 1AR. Cyhoeddir rhestr gyflawn o'n cefnogwyr ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.**

Mae'r misoedd yn hedfan heibio heb inni gydnabod yn ddiolchgar iawn haelioni ein cyfranwyr – ac mae sawl un wedi bod yn hynod o hael atom eto eleni. Diolch o galon i'r canlynol: Mr Wynne Morris, Mrs S M Evans, Mr D Glyn Lewis, Mr Owen Edwards, Mr a Mrs P R Robins, G E Davies ac E D Jones, Mrs Mair Owen, Mrs Maurine Hurley, Y Parch Emlyn Jenkins, Dr a Mrs Don Anderson, Mrs Alexander, Y Barnwr a Mrs Hywel ap Robert a Mr a Mrs R T Evans yn arbennig. Diolchir hefyd i'r nifer sydd yn cyfrannu trwy archeb banc. Cyhoeddir rhestr gyflawn o'n cefnogwyr yn rhifyn mis Mai. Apeliwn at y rhai sydd heb gyfrannu eleni i ddanfon eu cyfraniad yn ddioed.

Ers yr haf diwethaf, bu'r Eglwysi a'r Cymdeithasau'n garedig iawn fel mae eu cyfraniadau yn dangos:

| | |
|---|---|
| Cymrodorion Caerdydd | £20 |
| Chwiorydd Eglwys Minny Street | £20 |
| Eglwys y Crwys | £15 |
| Cymdeithas Ddrama y Crwys | £5 |
| Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys | £20 |
| Eglwys Salem, Canton | £50 |
| Eglwys Dewi Sant | £50 |
| Cylch Cinio Dynion Caerdydd | £60 |

Diolchwn o waelod calon am y gefnogaeth yma – a gobeithio y bydd yr Eglwysi a'r Cymdeithasau yn dal ar bob cyfle i ddanfon adroddiadau o'u gweithgarwch i'r Dinesydd – yn ogystal â'u cyfraniadau ariannol!

# CWM RHYMNI

## CORAU I GYSTADLU AM Y RHUBAN GLAS

**Bydd cystadleuaeth Rhuban Glas i gorau yn Eisteddfod Genedlaethol Cwm Rhymni eleni.**

Sefydlwyd y gystadleuaeth newydd, sy'n cynnig gwobrau arbennig o hael, mewn ymdrech i ddenu rhagor o gorau i gystadlu yn y Genedlaethol. Pedwar ar hugain o gorau fu'n cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd ym 1988.

Bydd y prif gorau yn cystadlu ddydd Sadwrn, Awst 4ydd; ddydd Mercher, Awst 8fed; a ddydd Sadwrn, 11fed.

Ar ddiwedd bob un o'r dyddiau hyn bydd yr enillwyr yn y cystadlaethau i gorau cymysg, meibion a merched yn cystadlu yn erbyn ei gilydd.

Ddydd Sadwrn, Awst 11fed, bydd y côr buddugol yn yr adrannau cymysg, meibion a merched – heb fod yn llai na 61 o leisiau – yn cystadlu am wobr arbennig o £500 yn y cystadlaethau traddodiadol.

Bydd corau rhwng 41 a 60 o leisiau yn cystadlu am £800 ar ddydd Sadwrn, Awst 4ydd.

Cyfrennir at gostau teithio'r corau, ac mewn rhai adrannau mae'r treuliau'n uwch nag o'r blaen.

Mae'r Eisteddfod yn edrych ymlaen i groesawu'r corau hynny sydd wedi bod yn ffyddlon i'r Ŵyl dros y blynyddoedd, yn ogystal â chorauhu fu'n cystadlu erioed o'r blaen. Yn arbennig, gobeithir y bydd y cystadlaethau newydd yn fodd i elwa ar y traddodiad cyfoethog o ganu corawl yng Nghwm Rhymni.

**Nod yr Eisteddfod yw torri tir newydd a chynyddu diddordeb corau Cymru mewn cystadlu. Ond pwysleisia'r trefnwyr nad yw'n fwriad i'r cystadlaethau newydd ddisodli'r cystadlaethau corawl traddodiadol.**

*"Mae Afon Rhymni dirion*
*Yn llifo, llifo'n gyson,*
*Er gweled llawer tro ar fyd*
*Yr un o hyd yw'r afon."*


**Dyma un o dribannau Morgannwg i'ch croesawu, ar ran is-bwyllgor Cerdd Dant ac Alawon Gwerin Eisteddfod Genedlaethol Cwm Rhymni, yn unigolion, deuawdau a phartion, i gystadlu yn yr Eisteddfod yn wythnos gyntaf Awst eleni. Yr ydym ni yn y De-ddwyrain yn ddiolchgar iawn am y gefnogaeth a gawsom gan weddill Cymru yn Eisteddfodau'r gorffennol, a hyderwn mai'r un fydd y gefnogaeth eleni.**

Yr oeddem yn ymwybodol iawn o draddodiad barddonol cyfoethog Morgannwg wrth ddewis y cerddi ar gyfer ein cystadlaethau Cerdd Dant eleni – cynhwyswyd cerddi gan Dyfnallt Morgan (o Ferthyr), Brinley Richards (Maesteg), Urien William (Y Barri) a Rhydwen Williams (Pentre, Rhondda) a cherddi am Forgannwg gan T E Nicholas, a T Llew Jones, heb anghofio awdl enwog Tilsli i foli'r glowr. Bu nifer o'n beirniaid (Lisa Erfyl, Eleri Owen, Menna Joynson, Alwena Roberts) yn weithgar iawn yn y cylch, heb sôn am rai o'r telynorion (Telynores Llwchwr, Bethan Davies, Mona Meirion) a diolchwn iddynt am gytuno i feirniadu a chyfeilio yn eu hen ardal.

O ran Alawon Gwerin, ceisiwyd cynnwys alaw neu ddwy â chysylltiad â'r Cwm, megis "Y Cobler Coch o Hengoed" ac


# ORIEL

**ORIEL – arbenigwyr mewn llyfrau o Gymru, llyfrau i ysgrifenwyr, llyfrau celf a barddoniaeth yr ugeinfed ganrif. Nawr mewn safle newydd, nid nepell o Heol y Frenhines.**




**Yr ydym hefyd yn cadw llyfrau ar arlunio, pensaerniaeth, y cyfryngau, y sinema, cardiau, posteri a chasetiau. Prynwch dros y ffôn – derbynnir cerdyn credyd.**

**Oriel**
**Heol Tŷ'r Brodyr**
**Caerdydd CF1 4AA**
**☎ 0222-225855**



CYNGOR SIR
DYFED
COUNTY COUNCIL

cwrs
carlam
cymraeg 1990
welsh
crash course

yng Ngholeg Llanymddyfri
at Llandovery College
21-29 o Orffennaf.
21-29 of July

**Trefnydd y Cwrs – Course Organiser**

Gwyneth Wynn, Trefnydd Cymraeg i Oedolion/Welsh for Adults Organiser, Theatr Felin-fach, Llanbedr Pont Steffan, Dyfed.
Ffon: 0570 470 005

Parhad Cwm Rhymni.

"Ar y ffordd wrth fynd i Rymni". Hoffem dynnu sylw arbennig at gystadleuaeth a drefnwyd ar y cyd rhyngom a'ris-bwyllgor Adrodd, sef "Cyflwyniad ar lafar ac ar gân", lle caniateir elfennau o lefaru, cerdd dant ac alawon gwerin (gweler cystadleuaeth rhif 61 yn y Rhestr Testunau).

Cewch fwy o fanylion am y cystadlaethau yn Rhestr Testunau'r Eisteddfod sydd ar gael yn Siopau Llyfrwerthwyr Cymru neu o Swyddfa'r Eisteddfod.

Mawr obeithiwn weld cystadlu brwd ymhob cystadleuaeth, ac y gwelir cyfeillion o bob rhan o Gymru yn y rhagbrofion ger Parc Bry Bach ar flaenau Cwm Rhymni rhwng Awst 4 ac 11. Mae Cyfeillion Cwm Rhymni yn gweithio'n galed iawn i sicrhau Eisteddfod Genedlaethol lwyddiannus eleni – y gyntaf yn sir Forgannwg Ganol er pan ffurfiwyd y sir ym 1974. **Dewch i'r ŵyl – ac yn bwysicach, dewch i gystadlu!**

# DYDDIADUR GERAINT WILLIAMS

## DIWRNOD CHWECH

Diwrnod braf heddiw ac aeth Maria a minnau i gyngerdd siambr yn y Theatr lle canwyd gweithiau gan Weber, Cherubini a Cesar Franck. Yn ystod y cyngerdd yn glir iawn roedd sŵn clychau'r Eglwys gyfagos. Faint o'r bobol leol sy'n mynychu'r cwrdd, wn i ddim, dim llawer rwy'n ofni.

Clywais am ymweliad Margaret Price â'r dre, ac i bawb a'i clywodd gael eu gwefreiddio. Roeddwn yn falch bod pobol Osnabruck yn ymwybodol ei bod yn Gymraes.

Yn y prynhawn mynd ati i brynu tocyn i fynd i Hanover. Gyda'r nos gweld hanes yr helyntion mawr yn Tseina ar y teledu. Fe fydd pobol ifanc Tseina yn casáu y llywodraeth o hyn ymlaen.

## DIWRNOD SAITH

Rhagor o newyddion trist o Tseina. Roedd tarth o gwmpas pan ddaliodd Maria a minnau y bws y bore 'ma ac erbyn naw o'r gloch roedden ni ar ein ffordd i Hanover. Gwlad wastad gyda bryniau a chlwstwr o goed yma ac acw. Dim llawer o wartheg o gwmpas a dim ond un cae o ddefaid a welson ni. Does dim dwywaith na ddylai 'na fod marchnad dda i oen Cymru yno ar ôl 1990!

Tua deg o'r gloch roeddwn yn ffarwelio â Maria a minnau yn mynd mas o'r stesion yn Hanover. Y peth cynfaf a wnes oedd mynd i Swyddfa'r Bwrdd Croeso i gael map o ganol y dref. Darganfod bod pob Amgueddfa ar gau, minnau wedi bod yn esgeulus na fuaswn wedi holi a Maria heb feddwl dweud wrthyf. Doedd dim i'w wneud ond mynd i eistedd ar lan llyn mawr a bwyta fy mrechdanau a'u rhannu â'r adar o'm cwmpas! Roedd un ohonynt yn ddewr iawn yn fodlon cymryd tamaid o'm llaw.

Dychwelais i ganol y dref ac ymweld â rhai o'r eglwysi. Gwelais arddangosfa mewn un yn rhoi hanes yr Eglwys Uniongred yn Rwsia. Esiampl arall o "Glasnost" oherwydd roedd yr arddangosfa hon wedi dod o Rwsia. Prynais bosteri o Eiconau i gofio am un o'r profiadau a gefais yn ystod fy ngwyliau, difyr a diddorol.

(Diolch i Geraint Williams am rannu rhai o'i brofiadau efo ni Gol.)

# Teulu Newydd

Mae 'na deulu newydd i'w weld bob nos Sul ar S4C – teulu o bump gan gynnwys Tad (Dewi Pws) a Mam (Caryl Parry Jones) a'u 'plant' Arwel Davies, Aled Pugh a Claire Williams, a'r cyfan yn ôl teitl y gyfres yn 'Hapus Dyrfa'. Dyma gynhyrchiad cynta' Cwmni Matinee, cwmni teledu annibynnol a sefydlwyd ddeunaw mis yn ôl gan Caryl ei hun, Elin Hefin a Carys Hall Evans. Mae'r tair eisioes yn gyfarwydd i wylwyr y sgrin – Caryl fel perfformwraig a chantores yn ei rhaglenni ei hun ac yn y ffilmiau poblogaidd 'Ibiza Ibiza' a 'Steddfod Steddfod' ac Elin a Carys fel aelodau o dimau cynhyrchu gyda'r BBC ac HTV cyn iddyn nhw fentro ar eu liwt eu hunain.

Bu trafodaethau hir cyn i'r triawd benderfynu cyfuno eu doniau a'u profiad proffesiynol a bwrw ati i sefydlu Matinee. Ond er gwaetha'r holl bwyso a mesur bu'n rhaid iddyn nhw wynebu problem annisgwyl ar ganol y paratoadau; ychydig ddyddiau cyn dechrau ffilmio rhuthrwyd Caryl i'r ysbyty ar gyfer llawdriniaeth. Gyda'r 'Fam' yn yr ysbyty bu'n rhaid ail-drefnu'r gwaith, ond llwyddwyd i orffen y gyfres o wyth rhaglen ar ei hamser ac erbyn hyn mae'r tair yn gobeithio y bydd tyrfa fawr o wylwyr yn hapus yng nghwmni'r teulu newydd.

Gan fod Caryl, Elin a Carys bellach yn byw yn nhalgylch y Dinesydd manteisiwn ar y cyfle hwn i ddymuno'n dda iddyn nhw a'u Cwmni.



## LLONGYFARCH

Llongyfarchiadau mawr i Sian a Hywel Griffiths ar enedigaeth eu mab bychan – Emyr Rhydian. Bydd Rhianydd a Cledwyn Parry a'r Parchedig Wynne Griffiths ar ben eu digon efo'r ŵyr bach. Pob dymuniad da iddynt.

## CYDYMDEIMLWN

Cydymdeimlwn yn ddwys a John Walter Jones, Gaynor a Rebecca ar eu profedigaeth yn ddiweddar o golli tad a thaid annwyl – y Parchedig Hüw Walter Jones, Porthaethwy. Meddyliwn hefyd am ei weddw, Megan.

City of Cardiff · Dinas Caerdydd

**John Markham**
**Trysorydd y Ddinas**
**Yn Ateb y Cwestiynau**
**sy'n ymwneud â ni bob un**

## Y Tâl Cymunedol

# NEWYDDION TRETH Y PEN

**Fel y gwyddoch o'r cyhoeddusrwydd cynharach, bydd y system bresennol o drethi domestig yn dod i ben ar 31 Mawrth. Yn ei lle mae'r Llywodraeth wedi cyflwynio'r Tâl Cymunedol (sy'n fwy adnabyddus fel Treth y Pen). O reidrwydd mae newid mor sylfaenol wedi codi llu o gwestiynau. Rwyf wedi ateb llawer ohonyn nhw yn fy mwletin blaenorol. Ond yma rwy'n ateb cwestiynau pellach ac yn ail-adrodd rhywfaint o'r wybodaeth bwysig sydd wedi ei rhoi'n barod.**

### C. Pryd fydd raid i mi ddechrau talu Treth y Pen?

A. Disgwylir anfon y biliau cyntaf ym mis Mawrth 1990 am y cyfnod o 1 Ebrill 1990 i 31 Mawrth 1991. Yn ôl y gyfraith mae gennych hawl i'w thalu mewn hyd at ddeg rhandaliad, ond gallwch ei thalu i gyd ar unwaith neu mewn dau randaliad os dymunwch. Ond rhaid chi wneud eich taliad cyntaf yn ystod mis Ebrill.

### C. Sut a ble fydda' i'n talu?

A. Bydd y rheiny ohonoch sydd â chyfrif banc yn ei chael yn hawdd talu drwy ddebyd uniongyrchol, ond does dim raid i chi dalu fel hynny. Mae yna ffurflen debyd uniongyrchol gyda'ch Hysbysiad Cofnodi ar y Gofrestr i'w defnyddio os mynnwch. Gallwch dalu â siec hefyd drwy'r post i Neuadd y Ddinas, neu â siec neu arian parod yn Neuadd y Ddinas a rhai o'r Swyddfeydd Tai Lleol. Gallwch dalu hefyd mewn arian parod mewn rhai siopau yn y Ddinas o fis Ebrill. Bydd manylion am y mannau neu'r 'lleoedd talu' hyn yn cael eu cyhoeddi yn y dyfodol agos.

### C. Beth os na alla' i dalu?

A. Mae yna gynllun ad-daliad ar gael os ydych chi ar incwm isel a gall hynny ostwng eich bil hyd at 10%. Os credwch efallai eich bod yn gymwys i gael ad-daliad, gwnewch gais nawr. Mae'r Llywodraeth wedi dweud y bydd pobl sy'n cael cymorth incwm yn cael codiad yn eu budd-dâl ym mis Ebrill i gwrdd â chost bil cyffredin treth y pen. Os byddwch yn cael anhawster wedyn i dalu erbyn y dyddiad dyledus, byddwch cystal â chysylltu â'r staff casglu ac fe geisian nhw eich helpu.

### C. O dan y system drethu mae yna gymorth arbennig i rai pobl anabl. Pam nad oes cymorth tebyg gyda Threth y Pen?

A. Cafodd y darpariaethau cymorth am anabledd yn y system drethu bresennol eu llunio i sicrhau na fyddai pobl yn gorfod talu mwy o drethu am fod newidiadau'n cael eu gwneud yn eu cartref i ddelio â'u hanabledd. Fe fydd treth y pen yr un fath i bawb, ac felly does dim angen cymorth arbennig ar sail debyg.

### C. Mae gen i garafan gwyliau. Fydd raid i fi dalu Treth y Pen ar honno?

A. Na fydd. Bydd carafanau gwyliau yn dod o dan daliadau trethi an-nomestig.

### Os ydw i am dalu dros fy ngwraig, ddylwn i ddychwelyd ei ffurflen dalu hi gyda fy ffurflen i?

A. Na ddylech. Rhowch enw a chyfeiriad eich gwraig ar eich ffurflen chi, gofyn iddi lofnodi wrth ei ymyl a dychwelyd y ffurflen ataf fi. Dylech wneud hynny ar gyfer unrhyw un arall y byddwch am dalu amdano hefyd.

### C. Drwy ddychwelyd y ffurflen Debyd Uniongyrchol nawr, ydw i'n rhoi siec wag i chi?

A. Nac ydych. Fe alla' i ddeall eich gofid, ond dydy hynny ddim yn wir. Drwy ddychwelyd y ffurflen nawr yr hyn

## AD-DALIADAU – Ydych chi'n gymwys?

### C. Allwch chi roi syniad i fi faint o incwm alla' i ennill a dal i gael ad-daliad?

A. Gallaf. Fe welwch isod rai enghreifftiau o'r lefelau incwm uchaf i fod yn gymwys i gael ad-daliad yn seiliedig ar dâl a argymhellir o £253.

| STATWS | INCWM NET WEDI EI ENNILL £ p | INCWM NET HEB EI ENNILL £ p |
|---|---|---|
| Person sengl dan 25 oed | 56.39 | 51.39 |
| Person sengl dros 25 ond dan 60 oed | 64.29 | 59.29 |
| Person sengl 60-74 oed | 76.09 | 71.09 |
| Rhiant sengl dros 18 oed gydag un plentyn dan 10 oed | 103.69 | 88.69 |
| Rhiant sengl dros 18 oed gyda dau blentyn dan 10 oed | 116.04 | 101.04 |
| Pâr priod dros 18 ond dan 60 oed | 116.06 | 106.06 |
| Pâr priod 18-60 oed gydag un plentyn dan 10 | 135.76 | 125.76 |
| Pâr priod 18-60 gyda dau blentyn dan 10 oed | 148.11 | 138.11 |
| Pâr priod ag o leiaf un o'r ddau yn 60-74 oed | 134.01 | 124.01 |

**Byddwch cystal â sylwi bod unrhyw gynilion dros £3,000 yn gostwng yr ad-daliad a roir.**

rydych chi'n ei wneud yw rhoi digon o amser i'm staff i a staff y Banc/Gymdeithas Adeiladu i wneud yr holl drefniadau angenrheidiol. Cewch wybod faint fydd Treth y Pen ymhell cyn y dyddiad y bydd eich rhandaliad cyntaf yn ddyledus. COFIWCH – chi sy'n rheoli'r trefniadau bob amser.

### C. Ar hyn o bryd rwy'n talu'r rhent a'r trethi gyda'i gilydd i Gyngor y Ddinas. Beth fydd yn digwydd fis Ebrill nesaf pan ddaw Treth y Pen i rym?

A. Bydd y trethi'n diflannu'n llwyr o'ch cerdyn rhent a byddwch chi, ac unrhyw un arall yn eich cartref sy'n gorfod talu Treth y Pen, yn cael bil ar wahân. Yn yr un ffordd, dylai tenantiaid priefat wneud yn siŵr nad yw eu rhent yn cynnwys unrhyw drethi o 1 Ebrill.

### C. Ar hyn o bryd mae fy eiddo wedi ei asesu fel siop, tŷ ac adeiladau ac rwy'n cael un bil trethi. Beth fydd yn digwydd yn y dyfodol?

A. Bydd y rhan fusnes yn eich eiddo yn cael ei hasesu ar gyfer y dreth an-nomestig newydd a bydd raid i chi dalu trethi arni. Mae'r gwerthoedd trethiannol newydd i'w gweld yn Neuadd y Ddinas bob dydd Llun tan 31 Mawrth.

Ni fydd trethi i'w talu ar eiddo domestig, ond byddwch cystal â sylwi y bydd unrhyw un dros 18 oed sy'n byw gyda chi hefyd yn gorfod talu Treth y Pen.

### C. Rwy'n berchen ar fy nghartref, ond rwy'n gorfod byw rywle arall fel amod yn fy ngwaith. Beth fydd raid i fi dalu?

A. Mae'n debyg y bydd raid i chi dalu Treth y Pen yn y cyfeiriad lle rydych chi'n byw oherwydd eich gwaith, ac efallai y bydd raid i chi hefyd dalu tâl cymunedol safonol ar eich cartref eich hun. Ond rhaid i mi edrych ar bob achos yn unigol i benderfynu p'un yw eich prif breswylfod.

### C. Mae fy mam sy'n oedrannus yn byw gyda fi am fisoedd lawer bob blwyddyn. A fydd raid iddi hi dalu am ei chartref tra bydd hwnnw'n wag?

A. Nid oes dim i'w dalu ar eiddo domestig yn ystod y tri mis cyntaf pan na fydd neb yn byw yno. Ar ôl tri mis fe allech fod yn agored i dalu tâl cymunedol safonol. Eto, bydd pob achos yn cael ei bwyso a'i fesur yn unigol.

## YMHOLIADAU

**Byddwch cystal â ffonio Neuadd y Ddinas (Teleffon: 822000) galw'n bersonol yn ystod oriau swyddfa neu ysgrifennu at Drysorydd y Ddinas, Neuadd y Ddinas, Caerdydd CF1 3ND**

### C. Beth os na fydda' i'n cytuno â phenderfyniad y Swyddog Cofrestru?

A. I ddechrau gallwch anfon eich sylwadau at y Swyddog Cofrestru pan rydych chi'n anghytuno â'i benderfyniad er mwyn iddo gael ail-ystyried y mater.

Yn ail, os byddwch yn dal i anghytuno, mae gennych hawl i apelio at Dribiwnlys Prisiant a Thâl Cymunedol annibynnol.

Gallwch gael manylion gennyf fi yn Neuadd y Ddinas.

## POBL DAN ANFANTAIS FEDDYLIOL

### C. Beth am rhyddhad o Dreth y Pen i bobl â nam meddyliol difrifol?

A. Does dim rhyddhad cyffredinol o dan y gyfraith i bobl sy'n dioddef gan unrhyw salwch penodol. Ond mae'r Llywodraeth wedi newid y diffiniad o bobl â nam meddyliol difrifol i gynnwys pobl sydd â nam yn deillio o salwch meddyliol neu dementia. Gellir rhoi rhyddhad yn unig os bodlonir y tair amod ganlynol:

1. Fod arno ef/hi nam meddyliol difrifol.
2. Ei fod ef/hi yn cael o leiaf un o'r budd-daliadau a restrir isod (neu fe fyddai ganddo hawl i'w cael pe na bai yn oed pensiwn).

3. Ei fod ef/hi wedi ei nodi â nam meddyliol difrifol at ddiben Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 mewn tystysgrif gan ymarferydd meddygol cofrestredig (meddyg).

Mae ffurflen arbennig i hawlio'r rhyddhad hwn yn cael ei llunio a bydd ar gael ond i chi ofyn amdani. Os bodlonir yr amodau'n llawn, rhoir rhyddhad. Os na allaf roi rhyddhad, bydd gennych hawl i apelio i Dribiwnlys Prisiant a Threth Cymunedol annibynnol.

### AMODAU BUDD-DALIADAU

I fod yn gymwys i gael rhyddhad rhaid fod gan berson hawl i gael un o'r budd-daliadau canlynol (neu fod â hawl i'w cael pe na bai yn oedran pensiwn).

(a) Pensiwn analluedd o dan adran 15 o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1975 neu adrannau 15 a 16 o Ddeddf Pensiynau Nawdd Cymdeithasol 1975;

(b) Lwfans anabledd difrifol o dan adran 36 o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1975;

(c) Atodiad anghyflogaeth yn cael ei dalu o dan adran 36 o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1975;

(d) Lwfans anghyflogaeth a delir o dan erthygl 18(1) o Gynllun Niweidiau Personol (Sifil) 1983 neu erthygl 18(1) o Orchymyn Pensiynau Gwasanaeth y Llynges, y Fyddin a'r Llu Awyr etc (Anabledd a Marwolaeth) 1983, (p'un a gaiff ei chymhwyso gyda neu heb ddiwygiadau gan unrhyw offeryn arall);

(e) Lwfans gweini a delir o dan adran 35 o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1975;

(f) Lwfans gofal cyson a delir gyda phensiwn rhyfel o dan erthygl 14 o Orchymyn Pensiynau Gwasanaeth 1983 neu erthygl 14 o Gynllun Niweidiau Personol (Sifil) 1983 neu gyda phensiwn rhyfel o dan Orchymyn Anabledd 1983, neu daliad tebyg arall o dan ryw awdurdod arall;

(g) Lwfans gofal cyson a delir o dan adran 61 o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1975.

CITY OF CARDIFF
DINAS CAERDYDD

# BWTH RUTH

**Wel helo pa hwyl sydd?**

Dwn i ddim ydach chi'n gwrando ar y rhaglen Atic Taid a Nain –cyfres radio sy'n edrych ar un flwyddyn ar y tro ydi hi. Mae'r cyflwynwyr hynaws Mary Wiliam a Noel Williams yn dewis pedwar 'peth' oedd yn ffasiynol neu'n cael eu defnyddio yn ystod y flwyddyn dan sylw – a gan fod y ddau ohonyn nhw'n gasglwyr pybyr a phrofiadol eu hunain maen nhw wedi llwyddo i ddangos a dysgu llawer iawn i mi am bethau fel y 'wireless crystal', llestri Clarice Cliff, medalau dirwest, dillad Mary Quant, cardiau coffa a phob math o betheuach y Beatles.

Mae Cathryn Gwynn yn edrych ar steil cartrefi'r gwahanol flynyddoedd ac ar newidiadau cymdeithasol ac mae Tegwyn Jones yn sôn am ddigwyddiadau'r 'Byd a'r Betws'. Dwi'n ffendio mod i'n crwydro marchnad hen bethau Jacobs a marchnad Caernarfon hefo llygaid gwahanol iawn erbyn hyn ac wedi datblygu diddordeb mewn gwrthrychau dechrau'r ganrif.

Dybed ai'r gyfres yma wnaeth i mi awgrymu i mam y dylen ni fynd ati i glirio'r atic acw yn Y Felinheli. Wel, ar fore Sadwrn gwlyb dyma wisgo yn bwrpasol ac i fyny â ni – ni'n dwy a dwy ferch ifanc yn eu harddegau cynnar – i fyny â ni hefo bocsus caledfwrdd, bagiau duon, brwsh llawr, hwfer a brwsh llaw.

"Reit" meddai Mam "lle gychwynnwn ni?" Dyma benderfynu cychwyn yn y gornel bella a gweithio tuag at y grisiau. Wel am hwyl gawsom ni – roedd yno laweroedd o gistiau lledr a'r cloion wedi torri ond yr hyn oedd yn y cistiau oedd yn ddifyr. Hen luniau o briodas fy hen nain



a nhaid yn Eglwys y Santes Fair ar Heol Bute, 'roedd taid wedi ei fagu yn Grangetown – yn fab i longwr a nain yn gofalu am blant i deulu oedd yn byw yn ffordd yr Eglwys Gadeiriol: merch o'r Gilfach Goch oedd hi yn wreiddiol!! Llun o gynhebrwng fy hen nain – a cheffylau du hardd yn tynnu'r hers. Mi roedd yno Destament Newydd wedi ei roi yn anrheg gan y Parchedig Cefni Jones – awdur yr emyn cymun hardd honno – "Pan oedd Iesu dan yr hoelion". Dyna'r math o bethau oedd yn mynd â mryd i ond 'roedd diddordeb y genod mor wahanol – mi aethon nhw â chopiau o glasuron llenyddol yn Saesneg ac yn Gymraeg heb sôn am racquets tenis hen iawn, tebot tsieni siâp eliffant, lluniau lliw sepia a phob math o drugareddau.

Dwi'n siwr y buasai'r joban wedi cymryd hanner yr amser petai mam a fi yno ein hunain, ond bobol bach 'roedd yr hel atgofion a'r straeon glywyd y dydd Sadwrn hwnnw mor werthfawr.

**Mi ddois i á llond car o drugareddau yn ôl hefo mi ac wrth yrru'r car i'r garej mi feddyliais i – ie dybed ddawn nhw yma i fy helpu i glirio'r lle yma – dybed? Digon anniddorol fyddai'r garej ar ôl Atic Taid a Nain, hwyl.**

## CLWB IFOR BACH
### HEOL WOMANBY, CAERDYDD, CF1 2BR
### FFÔN: (0222) 232199

**Mis Mawrth**

| | |
|---|---|
| 2/3ydd | Penwythnos y Gêm – Trefniadau Mynediad Arbennig |
| 8fed | CYD De Morgannwg "Cwis a Chawl" Croeso i bawb |
| 9fed | Merched Beca a Chefnogaeth |
| 12fed | Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd 8pm |
| 13eg | Cwis 8.30pm |
| 17eg | Sobin a'r Smaeliaid a Jecsyn Ffeif |
| 23ain | Yr Anhrefn |
| 27ain | Cwis 8.30pm |

*Clwb Cymraeg yn y Brifddinas*

# LLYTHYRAU

## ANNWYL DINESYDD

### CYNGOR CYMRU AR ALCOHOL

Wel, dyna Refferendwm arall wedi dod a mynd. Nid bod y mwyafrif o etholwyr Caerdydd a Thaf Elái yn arbennig wedi dewis bwrw unrhyw fath o bleidlais!

Yn naturiol bu Cyngor Cymru ar Alcohol yn weithgar iawn yn ystod yr ymgyrch pan gawsom gyfle gwych a chyhoeddusrwydd eang i osod achos problemau alcohol o flaen llygaid y cyhoedd.

Rwyf wedi gwasanaethu'r Cyngor fel Ysgrifennydd Ariannol ers cychwyn 1986. Y darlun cyffredinol yw bod ein hincwm yn statig ond costau yn cynyddu. Dim ond un gweithiwr amser llawn sydd gennym sef ein cyfarwyddwr diwyd a diflino, Parchg Eirian Rees a phedwar neu bump o weithwyr rhan amser. Ysywaeth ers rhyw flwyddyn a hanner dyw ein hadnoddau ariannol ddim yn caniatau i ni gyflogi gweithiwr amser llawn i helpu Eirian. Mae hyn wrth gwrs yn drueni.

Ysywaeth yn ystod y flwyddyn neu ddwy diwethaf bu farw rhai o'n cefnogwyr ariannol ffyddlon. Mae angen cefnogwyr newydd i gymryd eu lle.

Nawr does fawr o neb yn hoffi gofyn i eraill am arian! A nid fi yw'r unig yn yng Nghymru sy'n apelio! Ond wedi'r cyfan, elusen (Gristnogol) yw'r Cyngor yn dibynnu i raddau helaeth ar gefnogaeth gwirfoddolwyr. Felly dydw i ddim yn ymddiheuro!

Mae'n siŵr gen i fod gyda chi ymdeimlad o werth yng ngwaith addysgol ein Cyngor. Ond cwestiwn arall ydy a fyddwch yn fodlon cefnogi mewn ffordd ymarferol! Felly os gwelwch yn dda darllenwch hwn pan fyddwch yn teimlo'n hael! Bydd pob £5 a £10 (neu fwy) yn dderbyniol iawn a phob cyfraniad yn fwy gwerthfawr wrth gwrs os gwnewch chi arwyddo ffurflen gyfamodi.

A wnewch chi ymuno gyda ni felly yn ein hymdrechion i sicrhau iechyd a bywyd da i bobl Cymru.

Ein cyfeiriad yw 112, Heol Albany, Caerdydd CF2 3RU.

Yn gywir,

**Parchg GWILYM DAVIES**

# GWAELOD Y GARTH

**Pan ymsefydlodd yr Athro W J Gruffydd yn Rhiwbeina ar droad y ganrif, fe gyhoeddodd ysgrif ar ddau bentref cyfagos, a'u galw yn bentre'r Bryn a phentre'r Pant. Yn yr Pant roedd yr olaf o'r capeli Cymraeg newydd droi yn Saesneg ei hiaith, a nododd Yr Athro bod Saesneg trigolion y pentre yn erchyll ac "nad oeddent o ran gwareiddiad llenyddol nemor uwch na Mongoliaid gwastadedd Asia!" Ond ym mhentre'r Bryn, ar draws afon Taf roedd y Gymraeg yn dal ei thir "cystal ag unrhyw blwyf cyffredin ym Môn neu Geredigion". Roedd hwyl fawr ar oedfaon a chyfarfodydd llenyddol y capel, a pherfformid yno ddramâu Cymraeg safonol, a gyfansoddid gan awdur lleol. Pentre'r Pant, wrth gwrs oedd Ffynnon Taf a phentre'r Bryn oedd Gwaelod y Garth.**

Roedd barn yr Athro braidd yn eithafol efallai yn y cyfnod hwnnw, ond does dim amheuaeth i bentref Gwaelod y Garth fod yn ynys brin o Gymreictod ar hyd y ganrif hon. Bu dylanwad y Parchedig R G Berry yn ddi-fesur ar fywyd y pentref yn ystod ei ddeugain mlynedd a mwy o weinidogaeth. Mae gan Mr T W Thomas atgofion lu, ac anecdotau difyr iawn amdano ac am y cymeriadau gwreiddiol a drigai yn y pentref. Bodlonaf ar nodi un yn unig o storïau T W. Pan berfformiwyd drama gyntaf B G Berry yn Bethlehem, Gwaelod y Garth fe aeth Joseph Miller a Jonah Miles (dau o'r prif ddiaconiaid) ato i ddweud "Hy, ych chi wedi penderfynu



*R. G. Berry.*

troi'r festri yma yn theatr." Fe'u hatebwyd gan John Phillips (tad yr actorion radio enwog, Arthur a Phil Phillips) gan ddweud, "Na, 'dwi ddim yn meddwl bo chi'n iawn fan 'na. Chi'n gweld ma 'na wahaniath rhwng llwyfan fel ma fa yma, a llwyfan mewn theatr. Mewn theatr ma'r cyrtens yn codi lan o'r gwaelod i'r top, ond yma yn y festri, agor o'r ochrau mae'r cyrtens!" "O! o'r gore", ebe Joseph Miller, a chafodd y ddrama ei pherfformio. Ac yn ystod y perfformiad hwnnw roedd Jonah Miles wedi ymgolli cymaint yn y ddrama, fel pan ddaeth un o'r cymeriadau i'r llwyfan (Mr Evans y Gweinidog), a sôn am ryw adnod neu gilydd, dyma Jonah yn gweiddi allan o'r gynulleidfa "Amen yn wir, Mr Ifans, whara teg."

### DYFALBARHÂD

Ddiwedd y pumdegau pan ymaelodais innau yn Bethlehem, y gweinidog oedd y Parchedig Gwilym Morris – pregethwr huawdl a llenor graenus. Erbyn hynny roedd y Gymraeg ar drai yn y pentref, a mawr fu llafur y gweinidog a Mr John Charles Davies, ac eraill o'r ffyddloniaid wrth ddysgu'r plant yn yr Ysgol Sul drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd talcen caled iawn gyda nhw. Ond llwyddwyd i gadw'r oedfaon a'r Gymanfa Ganu flynyddol yn drwyadl Gymraeg, er bod lletiaith rhai o'r plant yn codi cywilydd ar rai o'r hen drigolion. Eto, oni bai am ddyfalbarhâd John Charles, a'i debyg, ni fyddai'r un cnewyllyn o Gymreigrwydd ar gael yno pan aeth Mrs Gruffydd John Williams ac eraill ati i frwydro dros sefydlu Ysgol Gymraeg yn y pentref. Y symudiad hwnnw, mewn gwirionedd, a drawsnewidiodd fywyd capel Bethlehem – ynghyd â'r ffaith bod cynifer o deuluoedd ifainc Cymraeg eu hiaith wedi dod i fyw i'r cyffiniau. Y ffaith yw nad capel pentref yw Bethlehem mwyach, ond eglwys bro, a'i dalgylch yn eang iawn. Daw'r rhieni ifainc a'u plant o'r Creigiau a Phentyrch, Radur, Llandaf a'r Eglwys Newydd, Fynnon Taf, Rhiwbeina a Thornhill.

Ar ôl ymadawiad y Parchedig Gwilym Morris, wedi un mlynedd ar hugain o wasanaeth, bu'r capel yn ddi-weinidog am gyfnod, ond bod y Parchedig Ifor Rees yn llanw'r bwlch pan oedd angen bwrw golwg fugeiliol dros yr eglwys. Wedi hynny bu'r Parchedig Rhys Tudur yn gweinidogaethu'n ddiwyd yno am ddeng mlynedd. Ac ers pum mlynedd bellach mae'r Parchedig T J Davies yn fawr ei wasanaeth fel gweinidog rhan-amser.

Ysywaeth mynd yn llai o flwyddyn i flwyddyn y mae nifer y brodorion sy'n gallu mynychu'r oedfaon, a hynny oherwydd henaint a llesgedd – "prin rai lle roedd gynnau gant". Ond y maent hwythau, yn fwy na neb, yn ymlawenhau bod holl weithgareddau Bethlehem yn para'n gyfan gwbwl Gymraeg – o'r oedfa fore Sul yn gysurus lawn.

**Beth bynnag yw cyflwr Pentre'r Pant erbyn hyn, y mae capel Pentre'r Bryn yn dal i fod yn gyrchfan i rai o Gymry maesdrefi Caerdydd.**

**IFOR REES**

## "BERMO YN Y NOS"

**Mae Dalier Sylw wedi llwyddo i ddatblygu a chyfleu delwedd wahanol – delwedd ddinesig. Mae ffresni artistig a menter y cwmni yn denu sylw cynulleidfa ifanc, adolygwyr yng Nghymru a dros y ffin.**

Mae'r cwmni yn gweld ei hun fel rhan o'r datblygiadau cyffrous sy'n digwydd yn y brifddinas ar hyn o bryd, mewn sawl cyfrwng, ac yn y ddwy iaith.

Mae'r cwmni yn bodoli i godi cwestiynau; i drafod yr iaith, a datblygiad y diwylliant Cymreig, a'r mudiad theatr yng Nghymru.

Bydd Dalier Sylw (D.S.) yn mynd ar daith yn ystod mis Mawrth gyda BERMO YN Y NOS, drama newydd gan Wiliam Owen Roberts, ac mi fyddwn yn ymweld â Chanolfan Gelfyddydau Taliesyn yn Abertawe ar 16eg a 17eg o Fawrth, â Theatr Elli yn Llanelli ar 19eg o Fawrth ac â Theatr Sherman yng Nghaerdydd o'r 29ain i'r 31ain o Fawrth.

NID TRIP YSGOL SUL AT LAN Y MÔR YW BERMO YN Y NOS, ond yn hytrach taith i fyny'r rhiwiau serth a throellog i hen dy mawr uwchben Bermo, lle mae dyn ifanc golygus yn gofalu am fenyw sy'n anabl.

MAE EMOSIYNAU YN BERW! YN BERMO YN Y NOS – emosiynau pwerus megis cariad a chwant, casineb a chwerwder, dicter a maddeuant – pan ddaw dwy chwaer, sydd heb dorri gair ers deng mlynedd, yn ôl i gartref eu mebyd, a gorfod wynebu ei gilydd, eu mam anhwylus, y dieithryn ifanc, a'u gorffennol.

Gyda Bethan Dwyfor, Alun Elidyr, Judith Humphries a Phil Reed; cyfarwyddir gan Peter Edwards.

**AM RAGOR O FANYLION, CYSYLLTWCH Â: LESLIE R. HERMAN JONES. FFÔN: (0222) 489089.**

D I N E S Y D D

## TRWY'R POST

Os hoffech dderbyn eich copi personol o'r Dinesydd bob mis am y flwyddyn, yn rhad ac am ddim, llenwch y ffurflen yma a'i hanfon yn ôl i Detheridge Cyf, 60, Heol y Parc, Caerdydd CF1 3AT

ENW ..........................................

CYFEIRIAD ..........................................

COD POST ..........................................

Amgaeaf siec am £ 4 .............................. i dalu am bostio deg rhifyn yn unig, yn daladwy i "Detheridge Cyf".

# HEL MEDDYLIAU

**"This is Diwi Sant, patron saint of Wales, the 'eaviest we got. Thirteen and a 'alf ton!"**
Un o hoff storiau fy ngwraig yw honno amdani, yn athrawes Cymraeg ifanc, yn mynd â dosbarth o blant i Neuadd y Ddinas yng Nghaerdydd 'ma i weld y rhyfeddodau yno. Aeth yr arweinydd â hwy i weld mawrion y genedl – mewn marmor, wrth gwrs, – Dafydd ap Gwilym, Owain Glyndŵr, Pantycelyn, Yr Esgob William Morgan, Hywel Dda a'r chwech sy'n weddill. Gyda llaw, a allech chi enwi'r chwech arall? Daeth y geiriau bythgofiadwy uchod o enau'r tywysydd goleuedig wrth ddod at Dewi Sant.

### NEUADD DEWI

Nid Dewi trwm yn unig oedd y Dewi hwnnw ond Dewi marw a mud, wrth gwrs. Ac felly y mae o hyd yn Neuadd y Ddinas. Tybed ai dyna paham y mae'r swyddogion yno mor hwyrfrydig i ni gael dogfennau Cymraeg heb i ni ofyn amdanynt? mae Dewi felly yn iawn i lawer o ddinasyddion Caerdydd a Chymry eraill o ran hynny – un na wna niwed i neb ond sydd yn grair marw nad yw'n dda i ddim ond i'w arddangos i ymwelwyr chwilfrydig. Pe bai'r Dewi hwn yn dechrau siarad Cymraeg (er mai Cymraeg y chweched ganrif fyddai honno) heb sôn am ddechrau pregethu, buan y cawsai ei daflu allan yn ddiseremoni o Neuadd y Ddinas.

### ELISEUS

Bob Gŵyl Ddewi byddaf yn ail-ddarllen dwy adnod o Ail Lyfr y Brenhinoedd. Dyma'r gyntaf: "Ac Eliseus a fu farw a hwy a'i claddasant ef. A minteioedd y Moabiaid a ddaethant i'r wlad y flwyddyn honno" (13,20). Y gelynion, wrth gwrs, oedd y Moabiaid. A bob tro y cyll gwlad broffwyd, mae'n agored i gael ei rheibio gan elynion. Ai am nad oes gan Gymru broffwyd heddiw y mae cymaint o "Foabiaid" yma o hyd? Neu am na wrandewir ar y proffwyd(i) cyfoes?

### MARW YN FYW

Dyma'r ail adnod: "A phan oeddynt yn claddu gŵr, wele, hwy a ganfuant dorf ac a fwriasant y gŵr i feddrod Eliseus. A phan aeth y gŵr i lawr a chyffwrdd ag esgyrn Eliseus, efe a ddadebrodd ac a gyfododd ar ei draed" (13,21). Meddai'r Cyfieithad Newydd: "... adfywiodd a chodi ar ei draed." Stori am angladd yw hon a'r Moabiaid eto, mae'n debyg, yn ymddangos ar y gorwel ac yn eu braw mae cludwyr y corff yn ei daflu i fedd Eliseus a dianc. Wrth gyffwrdd ag esgyrn Eliseus mae'r marw yn mynd yn fyw! Stori anhygoel!

Ond y wers, mae'n siŵr, yw bod cyffwrdd â'r gwir broffwyd yn rhoi bywyd newydd i bob un. A dyna yn o gymwynasau Gŵyl Ddewi. Wrth gyffwrdd â Dewi mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, gall hynny ddod â bywyd newydd i bob Cymro a Chymraes, ac felly dod â bywyd newydd i Gymru.

Mae Crwys yn ei roi mewn geiriau gwahanol yn ei delyneg fach gyfoethog, "Cofio Dewi Sant":

**"Pe gwyddem fod esgyrn Dewi Sant**
**Yng ngrodir Glyn Rhosyn mewn diddos bant,**
**Awn yno i chwilio a chwilio drachefn**
**I gael gafael mewn dim ond ei asgwrn cefn.**

**Ac yna fe'i rhannwn yn rhwydd a diball,**
**Cymal i hwn a chymal i'r llall,**
**I bob tad a mam, asgwrn cefn yr hen sant,**
**Ac ysbryd hen Ddewi a rown yn y plant."**

Go dda, Crwys!

**HUW ETHALL**

# BETHEL MAES-Y-DERI

Bydd pentrefwyr Rhiwbeina, caredigion yr iaith yma yng Nghaerdydd, a phob "Wesle" gwerth ei halen yn llawenhau i wybod ein bod ni Wesleaid Cymraeg Caerdydd, bellach yn gyfrifol am y capel bach ym Maes-y-Deri, Rhiwbeina. Rhyw ychydig ydyn ni o ran nifer ond mae ein gobeithion at y dyfodol yn fawr. Ar hyn o bryd mae 'na lewyrch arbennig ar yr Ysgol Sul, efo dros hanner cant o blant yno'n rheolaidd. Edrychwn ymlaen at weld y rhieni yn dod atom yn eu tro er mwyn derbyn o'r bendithion sydd yn eu haros wrth gyfrannu i a chyfranogi yng ngwaith yr eglwys. Fe wyddom hefyd, trwy golofnau'r "Gwyliedydd", fod nifer o Wesleaid wedi cartrefu yma yng Nghaerdydd – dewch atom da chi! Byddwn yn falch iawn i'ch croesawu i'n plith bob bore sul am 9.45 – chwarter i ddeg.

Mae gwaith atgyweirio'r adeilad wedi cychwyn yn barod – cyn bo hir fe fydd y capel bach yn werth ei weld a braf o beth fyddai gweld y lle dan ei sang. Croeso mawr i bawb i ymuno â ni ar gychwyn pennod newydd yn ein hanes – Manteisiwch ar y cyfle i fod yn rhan ohono.

# CWRS CEFNDIR 1990

Tybed a fyddai gan ddysgwyr profiadol yn eich ardal ddiddordeb mewn Cwrs Cefndir a gynhelir yn Ebrill 1990 yn Llanbedr Pont Steffan? Neu efallai bod eich darllenwyr yn nabod dysgwyr lleol sydd am wella eu gwybodaeth o'r Gymraeg a'n diwylliant.

Fe'i trefnir gan Ganolfan Dysgu Cymraeg i Oedolion Prifysgol Crymru ar gyfer dysgwyr sydd eisoes yn ddigon sicr eu gafael ar yr iaith lafar ac yn awr am ehangu eu gwybodaeth am Gymru a'i diwylliant yn ogystal â datblygu eu Cymraeg llafar ac ysgrifenedig. Mae'r pwyslais ar ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol yn hytrach nag ar ddysgu'r iaith yn ffurfiol.

**Os ydych am fwy o fanylion, cysylltwch â Geraint Wilson-Price, Canolfan Dysgu Cymraeg i Oedolion, 22 Heol y Parc, Cathays, Caerdydd (0222) 390980.**

# Y CALENDAR

**MAWRTH . . .**

**2:** Cymdeithas Rieni ac Athrawon Ysgol Glantaf. Noson yng nghwmni'r Dr Meredith Evans yn y Dyffryn.

**6/7/8/:** "Cyffro ar y Costa" – Cwmni'r Gadwyn yn Stiwdio Ddrama Ysgol Gyfun Radur am 7.30.

**7:** "Cawl a Chân" – Gwraig Wadd – Eirlys Parri.

**8:** Am 8.00 yr hwyr yng Nghlwb Ifor Bach, Heol Womanby, Caerdydd, Noson o Gwis a Chawl. £1 wrth y drws.

**12:** Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: Papurau Byrion gan Ms Sian Davies, Mr Rhodri Evans a Mr Aled Williams.

**12:** Merched y Wawr Cangen Caerdydd yn Festri Minny Street: Noson Codau yng nghwmni'r dysgwyr.

**14:** Cymdeithas Minny Street: "Meddyginiaethau Cefn Gwlad" – Dr Anne Williams.

**16:** Cylch Llyfryddol Caerdydd yn festri'r Tabernacl (sylwer) am 7 o'r gloch. "Trysorau Llên" – Robin Gwyndaf (Cyfarfod Blynyddol yr aelodau yn dilyn).

**17:** Ysgol Feithrin Tŷ'r Cymry: 2 o'r gloch. Ffair Sborion a Stondin Deisennau, Eglwys Fethodistaidd y Drindod, Four Elms Road.

**23:** Am 8 o'r gloch yng Nghanolfan yr Urdd, Heol Conwy, Caerdydd. Noson yng nghwmni Tecwyn Ifan & Rosfa. Tocynnau £3.00. Bar a lluniaeth ysgafn.

**28:** Cylch Cinio Cymraeg y Barri a'r Fro. Siaradwr: Aled Gwyn.

**28:** Cymdeithas Minny Street: "Cwm Rhymni" – Mr Dafydd Islwyn.

**EBRILL . . .**

**4:** Am 7.00 yr hwyr yn Ysgol Glantaf, Llandaf, Caerdydd, EISTEDDFOD Y DYSGWYR MORGANNWG A GWENT. 50c wrth y drws. Rhaglenni yn cynnwys rhestr testunau ar gael nawr!

**6:** Cymrodorion Caerdydd yn festri Tabernacl. Ymweliad Cymrodorion y Barri. Cadeirydd: O E Roberts.

**9:** Merched y Wawr Cangen Caerdydd yn festri Minny Street. Noson Ddrama gan John Owen o Ysgol Rhydfelen.

**20-22:** Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd – Ymweld â chynhadledd flynyddol y Gymdeithas Wyddonol Genedlaethol (ym Mangor).

**22:** Cymanfa Ganu yr Eglwys Fethodistaidd (Cylchdaith Morgannwg) yn Beulah, Rhiwbeina am 6 o'r gloch. Cymanfa'r plant am 2.30. Arweinydd, Mair Roberts.

**25:** Cylch Cinio Cymraeg y Barri a'r Fro. Siaradwr: Ernest Williams.

# MENNA'N MANYLU



Ganol Ionawr, mi gês noson ddifyr iawn yn Ysgol Gymraeg Ynyswen, Treorci. Braf iawn oedd mynychu diwylliant Cymreig y tu allan i'r brifddinas a hynny er gwaetha'r môr o Saesneg (nid Seisnigrwydd) sydd i'w glywed mor fynych ar wefusau pobl y Cymoedd. Ond mae calonnau'r trigolion hyn yn y lle iawn ac er gwaethaf methiant y to canol oed i ddysgu'r Gymraeg, mae'r bobol hŷn yn gefnogol iawn i'r iaith a'r bobol ifanc hefyd yn gyrru eu plant i gael addysg trwy gyfrwng yr iaith.

Mae plant Ynyswen yn amal ar y brig efo'r Ymgyrch Lyfrau, yn cystadlu'n rheolaidd yn Eisteddfodau'r Urdd ac wedi bod ar y blaen efo'r Cwis Llyfrau Cenedlaethol. Hyfryd felly oedd torri tir newydd a defnyddio'r ysgol i gynnal gweithgareddau celfyddydol Cymraeg. Cafwyd derbyniad gwresog i berfformiad Dyfan Roberts yn ei sioe un-dyn 'Val' a sioe un-ddynes Mair Tomos Ifans, 'Yma o Hyd'. Roedd pawb, gan gynnwys y plant 'wedi mwynhau gwers hanesyddol am un o arwyr Cymru, Lewis Valentine, ac am fywyd un o arweinwyr Cymdeithas yr Iaith, Angharad Tomos, yn y carchar. Gwefr oedd gweld Dyfan yn cael encôr a'r gynulleidfa'n cymeradwayo ar eu traed.

Cawsom gipolwg ar y noson ar raglen 'Hel Straeon' yn ddiweddar – braf ydi gweld y cyfryngau'n ymddiddori yn niwylliant ardal lofaol lle mae'r Gymraeg, er yn y lleiafrif, yn ennill tir yn yr ysgolion. Erbyn mis Medi, bydd pum ysgol Gynradd Gymraeg yn bwydo ysgol Uwchradd newydd y Cymmer.

Dros gyfnod y Nadolig, cawsom gyfle i wrando ar blant Ynyswen yn cystadlu ar y Garol Nadolig ar Radio Cymru. Disgyblion yr ysgol hefyd oedd i'w gweld yn y gynulleidfa pan ffilmiwyd pantomeim Robin ap Croeso yn Mharc-ar-Dâr yn Nhreorci. Mae cyfle i'r plant ymarfer yr iaith y tu allan i'r ysgol dan weithgarwch di-flino Anna Jane Evans, y genhades sy'n cynnal clwb y capel i ieuenctid yr ardal. Bydd yr ysgol yn dathlu deugain mlynedd ei bodolaeth ym mis Mehefin – pob hwyl ar y dathlu a gobeithio y cawn lawer mwy o nosweithiau Cymreig yno yn y dyfodol.

# *Llwyth i'r Lloches*

Nid nepell o ganol y ddinas saif y lloches sy'n gysgod i rai o anffodusion bywyd. Wrth i'r ddinas ddatblygu o ran moethusrwydd a masnach erys y lloches yn ynys o gysur i'r sawl sy'n methu â dygymod. O gwmpas yr ynys obaith hon mae llanw mawr y fateroliaeth gyfoes yn debyg o yrru mwy a mwy i geisio diogelwch arni.

Ers ychydig o flynyddoedd fe gafodd yr ynys a'i thrigolion eu mabwysiadu gan un o eglwysi Cymraeg y ddinas sef Ebeneser. Dros fisoedd y gaeaf fe fydd prysurdeb mawr yng nghegin y festri wrth i rai o'r aelodau fynd ati i goginio ar gyfer y lloches.

Rhan arall o genadwri Ebeneser tuag at gyd-ddyn yw'r daith flynyddol i gasglu dillad ar gyfer yr ynyswyr. Drwy ysbrydoliaeth gweinidog yr eglwys, Dr Geraint Tudur, mae casglu'r dillad wedi troi'n weithred genedlaethol.

Ddiwedd Ionawr neilltuwyd penwythnos i griw o aelodau fynd â fen wag i fyny i Ogledd Cymru i gasglu dilladau o sawl canolfan. Roedd y rhwydwaith yn ymestyn o Wrecsam i Wynedd, i lawr i'r Brithdir a thrachefn i Lanelli drwy Lambed gan orffen yn y lloches.

Gymaint oedd y cynhaeaf wrth i'r criw fynd o fan i fan nes y bu rhaid llogi fen arall yn y Bala er mwyn cludo'r cyfan i Gaerdydd. Does dim angen llawer o ddychymyg i weld yr ymateb fel fersiwn gyfoes o wyrth y ddau bysgodyn a'r pum torth.

Diolch i ymroddiad Geraint a'i griw a wynebai benwythnos o deithio dwys ar adeg o'r flwyddyn pan oedd y tywydd ar ei arwaf. Mae eto gysur a chlydwch wedi cyrraedd trigolion y lloches. Nid amhriodol fyddai dweud ar eu rhan mai 'trwy ddirgel ffyrdd mae'r Arglwydd Iôr yn dwyn ei waith i ben'.

**Wynne Lloyd**

## LLONGYFARCH

Llongyfarchiadau i Carys Hall a Geraint Evans ar enedigaeth mab Dewi Hall, brawd bach i Elin sy'n fawr ei gofal ohono yn ôl pob sôn. Y ddau deulu wrth eu bodd.

# Cwtogi yn yr Amgueddfa Genedlaethol


**Wedi ei gyflwyno rhwng cloriau a digon o sglein arnynt y mae adroddiad blynyddol yr Amgueddfa Genedlaethol am 1988-89. Nid oedd llawer o sglein ar rai pethau a ddigwyddodd yn sgil y toriadau a wnaed ar gyllid yr Amgueddfa. Torrwyd yn hallt ar staff a chodwyd tâl mynediad i bob un o ganghennau ei sefydliad. Wrth wneud hynny, meddai'r llywydd yr Anrhydeddus Jonathan Davies y mae tensiwn wedi digwydd a chamddealltwriaeth wedi codi!**

Nid oes llawer o arnydd yn yr Adroddiad fod yna barodwydd i feirniadu'r llywodraeth ac ni fyddai neb yn meddwl fod yna garfan fawr yn gwrthwynebu'r tâl mynediad. Ers misoedd bellach mae na lythyru di-bendraw wedi bod ym mhapurau safonol Lloegr, a llawer o bobl cyfrifol yn gwneud eu protest. Un enghraifft yw Valerie Bott, Llywydd Federasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Llundain yn honni fod y tâl yn ataliol iawn i bobl fel y di-waith, yr henoed ac yn enwedig i'r rhai sydd heb eu haddysgu ddigon i weld gwerth ymweled yn gyson. Y mae codi tâl am ymweld yn gwneud llawer mwy o newid nag o les.

Mewn rhaglen deledu yn ddiweddar yn trafod y pwnc dywedodd cyfarwyddwr Orielau Glasgow 'Os yw Amgueddfa'n codi tâl mynediad ac yn cael llai o ymwelwyr, yna nid yw'n gwneud ei gwaith yn iawn.' Eto ar yr un rhaglen, 'y mae amgueddfa sy'n codi tâl yn bradychu ymddiriedolaeth – y rhai a roddodd yn hael gyda'r bwriad o roi cyfle i'r cyhoedd weld y trysorau yn rhad ac am ddim er eu haddysg a'u lles.

Yn ddiweddar, cyhoeddwyd adroddiad gan y Policy Studies Institute dan y teitl Cultural trends 4. Honnir ynddo fod nifer yr ymwelwyr i'r amgueddfeydd sy'n codi tâl – yn bennaf Llundain a Chaerdydd, wedi gostwng o 13.1 miliwn yn 1979 i 8.3 miliwn yn 1988. Edrychwn ymlaen at gael ffigyrau yn dangos y gostyngiad a fu yn nifer yr ymwelwyr yma yn y Prif Adeilad, Cathays. Y mae'r adroddiad blynyddol yn datgelu mai 23,459 o docynnau a werthwyd rhwng I Rhag 1988 a 31 Mawrth 1989, ond nid yw'n dweud faint yn llai yw hyn fel canrau.

Tair cangen o'r Amgueddfa Genedlaethol sy'n codi tâl mynediad, sef yn Prif Adeilad, Cathays (PA); Amgueddfa Diwydiant a Môr, Heol Bute (ADM) ac Amgueddfa Werin Cymru (AWC). Dangosir crynodeb o'r gost i deulu o bedwar yn Nhabl 2 isod, ac sy'n codi o'r ffigyrau yn Nhabl 1.



**TABL 1 – TÂL MYNEDIAD**

| | PA | ADM | AWC |
|---|---|---|---|
| Oedolion | £1.00 | £2.50 | £3.00 |
| Plant (1-15) | 50 | 1.20 | 1.50 |
| Pensiynwyr a di-waith | 75 | 1.40 | 2.25 |
| Teulu | | 6.50 | |

**TABL 2 – COST MYNEDIAD (teulu o bedwar)**

| | PA | ADM | AWC |
|---|---|---|---|
| Dau riant | £2.00 | £5.00 | £6.00 |
| Dau blentyn | 1.00 | 2.40 | 3.00 |
| Cyfanswm | 3.00 | 7.40 | 9.00 |
| Tocyn teulu | | 6.50 | |
| gostyngiad | | 90 | |

**Y mae'r ffigyrau hyn yn siŵr o godi nifer o gwestiynau ym meddwl rhai ohonom.**

**S.D.**

# CYSTADLEUAETH GOFFA KATE ROBERTS

Eleni cynigiwyd gwobr o £1000 am stori fer. Dyfarniad y beirniaid Rhydwen Williams, Eigra Lewis Robert ac Euryn Ogwen Williams oedd rhannu'r wobr yn gyfartal rhwng y canlynol – Grace Roberts, Anest Glyn, Edward Jones ac o lawenydd mawr i ni ddarllenwyr Y Dinesydd – Nia Hall Williams un o'n gweithwyr selocaf sy'n cynnal y papur hwn. Ymfalchiwn yn ei llwyddiant am yr eildro mewn cyfnod byr. Edrychwn ymlaen ar ddarllen ei stori "Ti frithyll bach" pan gyhoeddir cyfrol o'r enillwyr fis Ebrill gan Hughes a'i Fab. Mae ar y golygydd flys gofyn i Nia am stori gyfres i'r papur hwn! Melys moes mwy Nia, a llongyfarchiadau.

# Arddangosfeydd

**ORIEL YR HEN LYFRGELL**
**YR AIS 9 MAWRTH-5 EBRILL**

*Chapter yn mynd i'r Dref (20 mlynedd ymlaen!)*

Pob math o weithiau mewn pob math o gyfryngau gan y tri ar ddeg o artistiaid sy'n gweithio yng nghanolfan Chapter.

**AMGUEDDFA WERIN CYMRU**
**SAIN FFAGAN 5-13 MAWRTH**

*Grace Robertson*

Ffotograffydd newyddiadurol. Casgliad o waith y ffotograffydd a gyflogwyd gan Picture Post.


**AMGUEDDA GENEDLAETHOL CYMRU Y PRIF ADEILAD**
**PARC CATHAYS**
**TAN 1 EBRILL**

*Cerfluniau o'r 20fed ganrif.*

Casgliad arbennig iawn o weithiau o amgueddfa Lehmbruck yn Duisburg, Ruhr, sydd yn amgueddfa flaengar iawn. Cyfle i weld cerfluniau a rhai lluniadau gan enwogion fel Käthe Kollwitz, Epicometti, Max Ernst, Lipchity, Derain, a Lehmbruck ei hunan. Dangosir tair rhaglen fideo ar adegau a chynhelir gweithdai i blant ysgol.

**AIL AGOR YN ORIELAU CELF**
**28 MAWRTH**

Cyfle unwaith eto (hir fu'r aros!) i weld rhan helaeth o ddarluniau o gasgliad yr Amgueddfa. Ail-agorir yr wyth oriel gelf yn yr Asgell Ddwyreiniol wedi tair blynedd o waith gosod sustem awyru arbennig, ar ail gynllunio'r orielau a'u goleuo o'r newydd i greu gwell argraff a naws i gynlluniau gwreiddiol y pensaer.



## CLIWIAU CROESAIR Rhif 98

**Mawrth 1990**

AR DRAWS:

5. Rhan o Ddyffryn Ogwen yn meithrin rhai prysur. (6)
6. ". . . win a llaeth." (Eseia LV)
9. Mae gwaith ysgrifwyr yn eich arwain i ddeall yn llawn. (6)
10. Tiwtonig. (8)
11. Nid y geiniog yw diwedd y gân pan gân hwn. (4)
12. Daeth ton i ni o bethau amheuthun.. (10)
13. Cura'i draed i fynegi cymeradwyaeth o waith y Crëwr. (11)
18. Mae stamp urddasol ar yr un sy'n dwyn neges fer atom. (6,4)
21. Mae pwdin sago gerllaw. (4)
22. Odi'r goes yn oer? (8)
23. Mae pum sws yn mynegi rhyw deimlad sylweddol. (6)
24. ". . . , fawrion o wybodaeth
O ba peth y gwnaethpwyd hiraeth." (6)
25. Clirio anwybodaeth sydd yn deillio o'n colegol euogrwyudd. (6)

I LAWR:

1. Gosodir seiliau i waith gweinidog. (8)
2. Daw wyth i ganu, ond dim ond pedwar llais a glywir. (6)
3. Rhai tebyg i Bentre Ifan. (8)
4. Tarthen yn clirio, a'r uchaf-bwynt yn dod i'r golwg. (6)
7. Diolchwn yn ddi-ddiwedd am bryfed aflonydd. (6)
8. Rhannau o Restr y Testunau. (6,5)
14. Chwarae teg i'r ochr arall. (8)
15. Chwyldro yng ngwlad isel Aman. (8)
16. Y sgôr a wna Terry tra fo'i wrthwynebydd yn ei gadair. (6)
17. Gyrru. (6)
19. Erlid Gwilym yn filain, ond yn gudd. (6)
20. ". . . calsyn poeth o'r tân." (6)

## DATRYSIAD RHIF 97

AR DRAWS: 1. Y Cranc; 5. Rhoscolyn; 9. Esgeulusaf; 10. Nychu; 11. Eisteddfa; 12. Rheibio; 13. Echni; 15. Nyth Cacwn; 18. Eiriolwr; 19. Tarth; 21. Calchen; 23. Recordio; 25. Lloffa; 26. Digenfigen; 27. Blonegog; 28. Untrew.

I LAWR: 2. Cosbi; 3. Aberteifi; 4. Coleddu; 5. Rhosllannerchrugog; 6. Safnrhwth; 7. Ofnai; 8. Ymchwilwyr; 14. Chwibanogl; 16. Anterliwt; 17. Blinedig; 20. Acennu; 22. Chwain; 24. Irene.

## CYSTADLEUAETH RHIF 97

Derbyniwyd deuddeg ymgais, saith ohonynt yn hollol gywir. Yr enw a dynnwyd o'r pentwr oedd Mrs S M Tibbott, Trefelin, Heol-y-Parc, Pentyrch, ac fe fydd y tocyn llyfr ar ei ffordd iddi gyda hyn.

Y chwech arall oedd yn gywir oedd: Hywel Jones, Cathays; David Bullock, Y Rhath; Marged Davies, Llandaf; Gwenda M Hopkins, Llanishen; A R R, Abertawe; a B T, Cyncoed.

## CYSTADLEUAETH RHIF 98

Tocyn llyfr am £5 eto. Pob ymgais i gyrraed Ap Lewsyn, 13 Rannoch Drive, Cyncoed, erbyn Mawrth 17eg, os gwelwch yn dda, â'ch enw a'ch cyfeiriad ar ymyl y croesair.



DYMUNA'R DINESYDD GYDNABOD GYDA DIOLCH GEFNOGAETH Y SWYDDFA GYMREIG A CHYMDEITHAS GELFYDDYDAU DE DDWYRAIN CYMRU TUAG AT GOSTAU CYHOEDDI.

## TELYNEG Y MIS

### MAWRTH

Beth a welais ar y lawnt,
Gyda wyneb gwyn, edifar?
Tlws yr eira, blodyn Mawrth,
Wedi codi yn rhy gynnar.

Beth a welais ar y llyn,
Rhwng y dwfr a brig yr onnen?
Lliw a modrwy brithyll Mawrth –
Ple mae'r enwair, ple mae'r bluen?

Beth a welais ar y twyn?
Wyneb oen, y cynta eleni:
Onid oen yw Mawrth ei hunan
Pan fo'r ŵyn yn cael eu geni?

Beth a welais yn y dref?
Mynwent gyda'i phorth yn ddatglo;
Aed y claf o'i dŷ ym Mawrth,
Ni ddaw'n ôl i gysgu yno.

*EIFION WYN*

**DYDDIAD COPI RHIFYN EBRILL 16 – 03 – 90**


DINESYDD

***PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH***

*Golygydd*
**Shân Emlyn**
5 Yr Hen Dŷ, Heol Fair
Llandaf, Caerdydd CF5 2EE
☎ 0222 567438

*Hysbysebion*

*Dylunio, Cysodi ac Argraffu*
**Huw Davies**
Detheridge Cyf
60 Heol y Parc, Caerdydd
CF1 3AT
☎ 0222 223525
Ffacs 0222 383760

Dyddiad copi rhifyn Ebrill
**16 – 03 – 90**
14,400 o ddarllenwyr

# TAFLEN "AR GAU"




**Tristwch mawr yw gweld unrhyw sefydliad Cymraeg yn cau, yn arbennig un a fu'n wasanaeth gwerthfawr i Gymry Cymraeg Caerdydd am rai blynyddoedd, ac a ystyriwyd yn rhan hanfodol o'n hymgais i fyw ein bywydau yn y ddinas hon gan ddefnyddio'n iaith ein hunain.**

Mae'r Dinesydd yn tristau ac yn gresynu bod "Taflen" wedi cau. Bu "Taflen" yng Nghanolfan Yr Urdd, Heol Conwy am rai blynyddoedd cyn symud i ganol bwrlwm y ddinas. Yno gwelwyd cyfle i ychwanegu at y gwerthiant llyfrau a chylchgronau, drwy gael adran grefftau, ac ystafell arddangos oedd yn denu gwaith artistiaid o safon Mary Lloyd Jones a'i thebyg. Ond yn ddisymwth caewyd y drysau. Yn ôl y sôn aeth yr hwch drwy'r siop.

Gwyddom fod darllenwyr y Dinesydd yn fawr eu cydymdeimlad â'r llu o wŷr busnes led led y wlad, sydd a'u busnesi mawr a bach, yn yr oes galed Thatcheraidd hwn, wedi mynd i'r wal. Ond, cred y Dinesydd bod angen gofyn rhai cwestiynau ynglŷn â thranc "Taflen".

Deallwn mai criw o ddeg oedd wedi buddsoddi yn y fenter ac yn rhedeg "Taflen". 'Roedd y criw yma yn cynnwys cyfreithiwr, cyfrifydd a dau bensaer, a'r gallu, fe dybiech, i ofalu am bob agwedd o fusnes. Hynny yw 'doedd dim prinder o arbenigaeth masnachol.

Gan fod "Taflen" wedi creu clientele cyson a ffyddlon dros y blynyddoedd, cwsmeriaid sydd bellach wedi cael eu siomi a'u gadael i lawr, teg gofyn beth ddigwyddodd?

A oedd y symud o Heol Conwy yn ddoeth o gofio bod trethi a rhenti uchel yn gwthio busnesi bach allan o ganol y ddinas?

Ai syniad doeth oedd lleoli taflen mewn ystafell lawr grisiau?

Pam na ddywedwyd bod argyfwng mewn da bryd, ac efallai ystyried lansio apêl?

Gwelsom mewn rhaglen newyddion teledu yn ddiweddar bod siop lyfrau "Oriel" yn derbyn cymhorthdal o £200,000 gan Gyngor y Celfyddydau. A wnaed cais am gymhorthdal cyffelyb o'r un ffynhonnell?

Rhaid i'r Dinesydd ddod i'r casgliad bod dwy flynedd yn y lleoliad newydd yn gyfnod rhy fyr i asesu llwyddiant neu fethiant menter fel hyn, a galwn i gwestiwn maint ymrwymiad y deg gŵr busnes fu wrth y llyw.

**Hefyd, a yw hi'n arwyddocaol bod y methiant hwn yn adlewyrchu anallu'r Cymry Cymraeg ym mhob maes, i gynnal sefydliadau llwyddiannus, ac a ydy twf a chynnydd yr iaith yn fwy na'r gwraidd sy'n ceisio ei gynnal?**


# Barn

CYLCHGRAWN MISOL CYMRAEG

Yn rhifyn Mawrth . . .

Beth sydd ar agenda Rhodri Williams?
Hywel Teifi v. Bobi Jones — Y Rownd Olaf!
Cerddi gan Menna Elfyn ac Emyr Humphreys
Dr. Ceinwen Thomas a'i llyfr yn ei llaw
Urien Wiliam ar Sensoriaeth
Lluniau Lliw Stan Williams
. . . a'r Gair Olaf gan Beti George

Tanysgrifiad blynyddol £12.00

**Swyddfa Barn, Llain Las, Porthyrhyd Caerfyrddin, Dyfed, SA32 8PL**
(Sieciau'n daladwy i Barn Cyf.)



# CHWYLBRO!



*Gweithgaredd difyr a chyffrous...
*Ar gyfer clybiau a chymdeithasau sy'n cyfarfod yn Gymraeg...
*Cyfle i lanw noson i'ch grŵp neu'ch cymdeithas chi...
*Ar gael trwy Gymru...
*Di-Dâl... Am wybod mwy?

Llenwch y ffurflen isod a'i danfon at:
Menter a Busnes,
Parc Gwyddoniaeth Aberystwyth,
Dyfed SY23 3AH

Cofiwch wylio Rhaglen Hywel Gwynfryn ar S4C Nos Wener, Chwefror 23 1990, 8.55 p.m.

Menter a Busnes

CHWYLBRO!

Enw: ____________________
Cymdeithas: ____________________
Cyfeiriad: ____________________
____________________ Rhif Ffôn: ____________________

Cefnogwyd gan: Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Datblygu Cymru Wledig